Eisteddfod gofiadwy eto yn Llandudoch

Bu Eisteddfod Llandudoch ar Ddydd Sadwrn, Mai 19eg yn un i'w chofio eleni eto. Deng mlynedd ar hugain ers ei sefydlu yn Chwefror 1988, mae'r digwyddiad yn dal i lwyddo i ddenu cystadleuwyr o ardal eang, ac i lwyfannu cystadlaethau brwd.

Y beirniaid eleni oedd Siôn Goronwy, Y Bala, oedd yn gyfrifol am y cystadlaethau cerdd a Iola Wyn o Sanclêr fu'n tafoli'r llefarwyr. Y Prifardd Osian Rhys Jones, Caerdydd oedd yn gyfrifol am y cystadlaethau llenyddol. Canmolodd y ddau feirniad lwyfan safon uchel y cystadlu gydol y dydd.

Dwy gyn-athrawes leol fu'n beirniadu gwaith y plant eleni – sef Eluned Jones, Capel Newydd yn pori drwy'r llenyddiaeth a Joy Forster, Cenarth yn pwyso a mesur y gwaith celf.

Cafodd canlyniadau cystadlaethau cartref y plant eu cyhoeddi mewn Noson Wobrwyo arbennig yn Theatr Mwldan Nos Lun, Mai 14eg gyda llu o blant yno i dderbyn eu gwobrau, a gweld eu gwaith yn cael ei arddangos. Enillwyd y ddwy brif wobr, sef Tlws WR Smart i'r llenor mwyaf addawol, a Thlws Coffa Kenneth Mower i'r arlunydd mwyaf addawol gan Bedwyr Thomas o Ysgol Llanychllwydog (Llên) a Finley o Ysgol Llandudoch (Celf). Cystadleuaeth newydd eleni oedd barddoniaeth i blant cynradd. Bu'n llwyddiant mawr, gyda 38 yn cystadlu.

Nos Fercher, Mai 16eg, cynhaliwyd noson o feirniadaethau llên a Thalwrn y Beirdd yn Ysgol Llandudoch, Cawsom gwmni'r Prifardd Osian Rhys Jones i roi canlyniadau'r llên, ac roedd Talwrn y Beirdd yng ngofal y Prifardd Ceri Wyn, a gamodd i'r adwy ar y funud olaf oherwydd salwch Eurig Salisbury. Roedd tri thîm yn cystadlu – y Tîm Teg, Y Tîm Tecach a Thîm Pontgarreg. Tîm Pontagrreg oedd yn fuddugol ar ddiwedd gornest ddifyr.

Prifardd y gadair eleni oedd Martin Huws, o Gaerdydd am ei gerdd 'Lleisiau' oedd wedi ei hysgrifennu ar ffurf deialog rhwng tad a'i ferch, wrth iddi hi symud i Lundain a wynebu problemai. Mae Martin yn fardd llwyddiannus gyda sawl cadair i'w enw gan gynnwys cadair arbennig Hedd Wyn a enillwyd ganddo llynedd ym Mhenbedw

Enillydd Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc oedd Sioned Medi Howells o New Inn, Pencader. Disgybl 18 oed yn Ysgol Bro Teifi yw hi, ac fe gafodd eisteddfod brysur gan iddi gystadlu mewn nifer fawr o gystadlaethau llwyfan. Mae Sioned wedi ennill nifer o dlysau ieuenctid, gan gynnwys yn Eisteddfod Ffermwyr Ifainc Sir Gaerfyrddin.

Llywydd yr eisteddfod eleni oedd Colin James, bellach o Dorchester, ond yn enedigol o Landudoch. Yn grwt ifanc, bu'n eisteddfodwr prysur gan ennill llu o wobrau am ei ganu arbennig. Mae'n dal i feddu ar lais tenor hyfryd, fel y profodd wrth ganu Cân y Cadeirio yn ystod y seremoni Nos Sadwrn. Bu'n hynod o hael i'r eisteddfod eleni, gan gyfrannu bron y cyfan o'r cwpanau ar gyfer y cystadlaethau, yn ogystal â rhodd ariannol. Yn ei araith Nos Sadwrn, soniodd am ei amser yn tyfu i fyny yn Llandudoch.

Canlyniadau:

Cystadlaethau Llên y plant: *Hyd at Flwyddyn 2*: 1af :Anna Dafydd, Ysgol Eglwyswrw; 2il :Cecil Lewis, Ysgol Eglwyswrw; 3ydd:Elin George, Ysgol Eglwyswrw Cymeradwyaeth Uchel : Sebastian Tree, Ysgol Eglwyswrw a Nia Rees, Ysgol Eglwyswrw. *Blwyddyn 3 a 4*: 1af : Fflur McConnell, Aberaeron; 2il : Elin Ingli Harries, Ysgol Eglwyswrw; 3ydd: Alaw Thomas, Ysgol Llanychllwydog. *Blwyddyn 5 a 6:* 1af : Bedwyr Thomas, Ysgol Llanychllwydog; 2il : Efa Lewis, Ysgol Eglwyswrw; 3ydd:Ifan James, Ysgol Eglwyswrw; Cymeradwyaeth Uchel : Ioan Harries, Ysgol Eglwyswrw. *Barddoniaeth oed cynradd*: 1af :Megan George, Ysgol Eglwyswrw; 2il : Manon Elster Jones, Ysgol Eglwyswrw; Cydradd 3ydd: Beca George, Ysgol Eglwyswrw a Gwyneth Lewis, Ysgol Eglwyswrw. Cymeradwyaeth Uchel : Cai James, Eglwyswrw a Lleucu Haf Thomas, Penparc. *Tlws Her WR Smart i'r llenor mwyaf addawol* : Bedwyr Thomas, Ysgol Llanychllwydog.

Cystadlaethau celf y plant : *Oed meithrin/Derbyn* : 1af : Delor Thomas, Ysgol Llanychllwydog; 2il : Calvin Grota, Ysgol Llandudoch; 3ydd: Arthur Johnson-Wysocki, Ysgol Llandudoch. *Blwyddyn 1 a 2:* 1af :Anna Dafydd, Ysgol Eglwyswrw; 2il : Alys Medi Humphreys, Ysgol Llandudoch; 3ydd: Isabel Simmons, Ysgol Llandudoch; Cymeradwyaeth uchel: Glain Phillips, Ysgol Eglwyswrw a Lili Foulkes-Roberts, Ysgol Llandudoch. *Blwyddyn 3 a 4*: 1af: Finley, Ysgol Llandudoch; 2il Gwern Phillips, Ysgol Eglwyswrw; 3ydd: Matthew Evans, Ysgol Llandudoch; Cymeradwyaeth uchel: Lleucu Haf Thomas, Penparc. *Blwyddyn 5 a 6* - 1af : Rhys Caygill, Ysgol Llandudoch; 2il : Harry Walker, Ysgol Llandudoch; 3ydd: Tomos Tagg, Ysgol Llandudoch. *Ffotograffiaeth oed cynradd*: 1af :Joe Thomas, Ysgol Llandudoch; 2il : Danny Graham, Ysgol Llandudoch; 3ydd: Gwern Phillips, Ysgol Eglwyswrw. *Tlws Coffa Kenneth Mower i'r arlunydd mwyaf addawol:* Finley, Ysgol Llandudoch.

Yr Eisteddfod Leol *:* Llefaru Bl 2 neu Iau – 1. Iolo Adams-lewis, Aberteifi; Unawd Bl, 2 ac Iau – 1. Lili Foulke-Roberts, Ysgol Llandudoch; 2. Lilwen Ford, Ysgol Llandudoch; 3. Sophie Stock, Ysgol Llandudoch; Llefaru Bl 3 a 4 – Dyfan Lewis, Ysgol Eglwyswrw; 2. Ella Grug Humphreys, Llandudoch; Seren Adams-Lewis, Aberteifi. Unawd Bl 3 a 4 – 1. Shannon Goellnitz, Llandudoch; 2. Ella Grug Humphreys, Llandudoch; Llefaru Bl 5 a 6 – 1. Mared Vaughan, Eglwyswrw; 2. Harry Walker, Llandudoch. Unawd Bl 5 a 6 – 1. Holly Forster, Llandudoch; Grŵp Llefaru dan 12 – 1. Ysgol Llandudoch; Parti/Côr dan 12 – Ysgol Llandudch. Gwobr Her Nantypele i'r perfformiad unigol gorau yn y cystadlaethau lleol : Dyfan Lewis, Eglwyswrw.

Eisteddfod yr Ifanc:

Cystadlaethau Llenyddol : Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc – Sioned Medi Howells, New Inn, Pencader. Darn o ryddiaith 11-16 oed – Lefi Dafydd, Eglwyswrw. Barddoniaeth 11-16 – Hedd Dafydd, Llangeitho.

Llefaru oed derbyn ac iau – 1. Celyn Fflur Davies, Llandyfriog; 2. Delor Celyn Thomas, Cwm Gwaun; 3. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfriog. Unawd Bl 2 ac Iau : 1. Celyn Fflur Davies, Llandyfriog; 2. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfriog; Delor Celyn Thomas, Cwm Gwaun. Llefaru Bl 1 a 2 – 1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni. Unawd

Bl 1 a 2 – 1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni; 2. Alaw Anna Dafydd, Eglwyswrw; 3. Ilid Jenkins, Llanfihangel-ar-arth. Gwobr Her Calon lfanc i'r perfformiad llwyfan gorau i'r plant lleiaf – Celyn Fflur Davies, Llandyfriog.
Llefaru Bl 3 a 4 – 1. Dyfan Lewis, Eglwyswrw; 2. Hawys Davies, Brynhoffnant; 3. Fflur McConnell, Aberaeron. Unawd Bl 3 a 4 – 1. Fflur McConnell, Aberaeron; 2. Alaw Thomas, Cwm Gwaun. Llefaru Bl 5 a 6 – 1. Ioan Mabbutt, Aberystwyth; 2. Alwena Owen, Llanllwni; Erin Griffiths, Castell Newydd Emlyn. Unawd Bl 5 a 6 – Ioan Mabbutt, Aberystwyth; 2. Alwena Owen, Llanllwni. Alaw Werin dan 12 – 1. Alaw Mair Owen, Llanllwni; 2. Ioan Mabbutt, Aberystwyth; 3. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni. Canu Emyn dan 12 – 1. Fflur McConnell, Aberaeron; 2. Ioan mabbutt, Aberystwyth; Alwena Owen, Llanllwni. Cerdd Dant dan 12 – 1. Ioan Mabbutt, Aberystwyth; 2. Alwena Owen, Llanllwni; 3. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni a Fflur McConnell, Aberaeron. Unawd Piano dan 12 – 1. Lefi dafydd, Eglwyswrw; 2. Alwena Owen, Llanllwni. Unawd Offeryn Cerdd dan 12 – 1. Lefi Dafydd, Eglwyswrw; 2. Alwena Owen, Llanllwni; 3. Andrew Johnson, Llandudoch a Gwilym Rees, Llandudoch. Gwobr Heri Iwan a Siân Davies i'r perfformiad llwyfan gorau dan 12 – Ioan Mabbutt, Aberystwyth. Llefaru 11-16 – 1. Fflur James, Eglwyswrw; 2. Lefi Dafydd, Eglwyswrw. Unawd 11-16 (Cwpan Her Mair Evans) 1. Fflur James, Eglwyswrw; 2. Guto Jenkins, Llanfihangel-ar-arth; 3. Teleri Selby, Ferwig. Alaw Werin dan 16 – 1. Fflur James, Eglwyswrw. Canu emyn dan 16 – 1. Fflur James, Eglwyswrw. Unawd offeryn cerdd – 1. Annest Davies, Mwnt. Lefaru unigol 16-19 – 1. Sioned Medi Howells, New Inn, Pencader; 2. Ffion Thomas, Crymych. Unawd 16-19 (Cwpan Her Rhiannon Lewis) – 1. Sioned Howells, New Inn; 2. Ffion Thomas. Lefaru 19 – 26 – 1. Heledd Besent, Dihewyd. Unawd 19-26 – 1. Heledd Besent, Dihewyd. Alaw Werin 16-26 – 1. Heledd Besent, Dihewyd; 2. Sioned Medi Howells, New Inn. Unawd Piano 16-26 – 1. Ffion Thomas, Crymych. Deuawd 12-26 – 1. Fflur James, Eglwyswrw a Mallt Ladd Lewis, Boncath.

Eisteddfod yr Hwyr:
Cystadlaethau Llên : Y Gadair – Martin Huws, Caerdydd. Telyneg – Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys, y Rhondda. Soned – Rachel James, Bpncath. Pedwar Pennill Telyn/Triban – Mary B Morgan, Llanrhystud. Englyn – Rachel James, Boncath. Limrig – D Handel Evans, Bodffordd, Ynys Môn.Cân Ddigri – Mary B Morgan, Llanrhystud. Stori fer – Richard Lloyd Jones, Bethel, Caernarfon. Cystadleuaeth Clebran – John Gwynn Jones, Capel Seion, Aberystwyth. Cyfansoddi Emyn-dôn – Dr Godfrey Williams, Pontcysyllte, Llangollen
Cystadlaethau Dysgwyr - Lefel mynediad – Lyndsay Morgan, Ferwig; Lefel Canolradd – Penny Poulson, Llandudoch; Lefel uwch – Wendy Evans, Aberteifi.

Cân o sioe gerdd – 1. Heledd Besent, Dihewyd; 2. Ffion Thomas, Crymych; Sioned Medi Howells, New Inn. Canu emyn 12-60 oed – 1. Carys Richards, Caerfyrddin; 2. Heledd Besent, Dihewyd; 3. Ffion Thomas, Crymych. Darllen darn o'r ysgrythur ar y pryd – 1. Sioned Howells, New Inn; 2. Maria Evans, Alltwalis; 3. Catrin Thomas a Sian Elin Thomas, Hermon. Darllen i ddysgwyr – 1. David Beman, Blaenporth; 2. Penny Poulson, Aberteifi. Canu emyn dros 60 – 1. Marianne Powell, Llandre; 2. Dafydd Davies, Castell Newydd Emlyn; 3. Catrin Thomas, Hermon. Prif

gystadleuaeth lefaru – 1. Sioned Howells, New Inn; 2. Angharad Jones, Caerfyrddin; 3. Heledd Besent, Dihewyd. Cyflwyniad ysgafn ar lafar – 1. Sioned Medi Howells, New Inn. Côr Llandudoch – 1. Seingar, Caerfyrddin; 2. Côr Crymych a'r Cylch. Yr Hen Ganiadau – 1. John Davies, Llandybie; 2. Marianne Powell, Llandre; 3. Lewis Richards, Cross Hands. Her Unawd – 1. John Davies, Llandybie; 2. Marianne Powell, Llandre; 3. Heledd Besent, Dihewyd; 4. Sioned Howells, New Inn; 5. Gerwyn Rhys, Porthyrhyd.